Bwletin y Farchnad HCC

Ionawr 2022


**Yn ddiweddar, mae Defra wedi rhyddhau ffigurau trwybwn lladdai'r DU ar gyfer mis Rhagfyr, ac felly mae bellach yn bosibl adolygu tueddiadau trwybwn a chynhyrchu ar gyfer 2021. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.**

## Cig Eidion a Chig Llo

Trwybwn Gwartheg y DU ar ei isaf ers 2015, ar **2.7 miliwn pen**

Yn ôl ffigurau newydd eu rhyddhau gan Defra, cyfanswm y gwartheg mewn lladd-dai yn y DU oedd 2.7 miliwn pen ar gyfer 2021. O'i gymharu â lefelau blwyddyn gynharach, mae hyn 5.7% (neu 160,600 pen) yn is, a hefyd 4.3% yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd (2016-2020). Roedd hyn hefyd yn nodi'r trwybwn gwartheg isaf ers 2015. O ganlyniad, cyfanswm y cig eidion a'r cig llo a gynhyrchwyd yn ystod 2021 oedd 885,500 tunnell – i lawr 5.0% ar y flwyddyn, a 3.0% yn is na'r cyfartaledd o 5 mlynedd. Roedd disgwyl gostyngiad yn nifer y gwartheg mewn lladd-dai yn y DU ar gyfer 2021 oherwydd y niferoedd uwch a broseswyd yn ystod 2020, ynghyd â llai o anifeiliaid ar gael ar lawr gwlad.

**Trwybwn Gwartheg a Chynhyrchiant yn Lladd-dai'r DU**





Cofnododd pob categori o wartheg ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y trwybwn. Proseswyd cyfanswm o 1.95 miliwn o wartheg dethol yn 2021 - 5% (neu 102,800 pen) yn llai na 2020, gyda bustych i lawr 5.6% ar y flwyddyn, heffrod i lawr 4.3%, a theirw ifanc i lawr 3.1%. Ochr yn ochr â hyn, gostyngodd trwybwn gwartheg llawn-dwf bron i 6% ar y flwyddyn i gyfanswm o 655,300 o wartheg. Roedd disgwyl gostyngiad yn nifer y gwartheg llawn-dwf yn dilyn niferoedd trwybwn uwch rhwng 2018 a 2020. Yn gyffredinol, roedd pwysau carcas cyfartalog yn parhau'n gymharol sefydlog ar y flwyddyn, ond roedd pwysau carcas cyfartalog teirw ifanc 5kg yn drymach ar 348.8kg.

## Cig Defaid

Yn ôl data gan Defra, roedd trwybwn ŵyn dethol yn ystod pob mis yn 2021 yn is na'r lefelau blwyddyn yn gynharach. O ganlyniad, roedd cyfanswm yr ŵyn mewn lladd-dai yn y DU yn ystod 2021 10.6% (neu 1.4 miliwn pen) yn is na'r lefelau blwyddyn yn gynharach, sef 11.7 miliwn pen. Mae hyn yn sylweddol is na chofnodion hanesyddol, tra bod nifer y defaid llawn-dwf hefyd wedi gostwng bron i 20% ar y flwyddyn (sef 1.2 miliwn pen). O edrych ar gyfanswm trwybwn defaid ac ŵyn yn ystod 2021, mae'r niferoedd 11.5% yn llai ar y flwyddyn, ar 12.8 miliwn pen. O ganlyniad, cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd yn ystod 2021 oedd 265,100 tunnell – i lawr 10.5% ar y flwyddyn.

**Trwybwn Ŵyn Misol y DU (blwyddyn cnwd ŵyn)**






Wrth edrych ar y flwyddyn cnwd cig oen (Mai '21 i Ebrill '22), mae'r trwybwn rhwng mis Mai a Rhagfyr yn 8.3 miliwn y pen – 10.9% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Yn dilyn y cynnydd yn nifer yr ŵyn a gyflwynwyd i'w lladd yn gynharach yn 2020 oherwydd ansicrwydd Brexit, rhagwelwyd y byddai nifer yr ŵyn fyddai'n cael eu lladd yn is yn 2021. Fodd bynnag, byddai'r ffigurau hyn yn awgrymu bod lefelau trwybwn yn is na'r hyn a ddisgwylid, o ystyried maint y cnwd cig oen. Dioddefodd llawer o broseswyr yn y DU brinder staff oherwydd Brexit a materion sy'n ymwneud â Covid (gyda rhai'n parhau i wynebu'r pwysau hyn) a allai fod wedi cyfyngu ar gapasiti prosesu'r lladd-dai. Rhaid nodi bod y ffigurau trwybwn misol a ddarperir gan Defra yn rhai dros dro, a gellir eu diwygio'n ddiweddarach.

## Cig Moch

Cyfanswm trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU yn ystod 2021 oedd 11.4 miliwn pen. Mae hyn 1.9% (neu 213,900 pen) yn fwy na 2020, a 2.5% yn uwch na 2019. Yn dilyn tueddiadau hanesyddol – roedd niferoedd trwybwn moch glân yn cyfrif am y rhan fwyaf o anifeiliaid ar 11.1 miliwn pen, tra bod 240,000 o hychod a baeddod wedi cael eu prosesu yn ystod y flwyddyn. Roedd pwysau carcas cyfartalog y ddau gategori yn drymach na lefelau blwyddyn yn gynharach oherwydd prinder staff yn gysylltiedig â Covid yn arwain at foch wrth gefn ar y fferm yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i niferoedd cynyddol ac anifeiliaid trymach, cyfanswm y cig moch a gynhyrchwyd yn ystod 2021 oedd 1.02 miliwn tunnell. Mae hyn 4% yn fwy na 2020, a bron i 7% yn fwy na'r swm a gynhyrchwyd yn 2019.

**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr**





**Cynnyrch cig eidion yn y DU**


## GWARTHEG

Y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd 229.8c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Ionawr 2022 – gostyngiad o 0.7c ar yr wythnos flaenorol. Mae'r pris presennol yn gryf o'i gymharu â chyfartaleddau hanesyddol, ac mae 22.5c yn uwch na lefelau blwyddyn yn gynharach, a bron i 28.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 191.4c/kg). Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Ionawr, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 407.4c/kg (yn sefydlog ar yr wythnos) sydd 32.6c yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 405.6c/kg (-0.3c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 390.5c/kg (-1.9c), a gwartheg difa ar 264.6c/kg (+0.4c).

Cyfanswm y gwartheg mewn lladd-dai yn y DU oedd 211,200 pen ar gyfer mis Rhagfyr – gostyngiad o 6.0% ar y flwyddyn, a 2.8% yn is na'r un cyfnod yn 2019. Roedd y trwybwn gwartheg dethol ar gyfer Rhagfyr i lawr 8.5% ar y flwyddyn i 148,900 pen (y trwybwn misol isaf a gofnodwyd yn 2021). Cofnododd pob categori o wartheg dethol ostyngiad ar y flwyddyn – bustych i lawr 10.6%, heffrod i lawr 6.7% a theirw ifanc i lawr 3.6%. Roedd y trwybwn gwartheg llawn-dwf wedi cynyddu ychydig ar y flwyddyn (+0.4%) i 57,400 pen. O ganlyniad i'r cyflenwad tynn cyffredinol, roedd cyfanswm y cig eidion ar gyfer mis Rhagfyr wedi gostwng bron i 7% ar y flwyddyn ar 69,600 tunnell.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**





**Cynnyrch cig defaid yn y DU**


## DEFAID

Yn dilyn cynnydd mewn prisiau ar ddiwedd 2021, mae SQQ pwysau byw ŵyn cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi bod yn gyson yn ystod wythnosau cyntaf mis Ionawr. Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Ionawr, roedd y cyfartaledd yn 261.3c/kg – i lawr 4.5c ar yr wythnos flaenorol. Mae'r cyfartaledd presennol yn debyg i lefelau blwyddyn yn gynharach (0.7c yn uwch), ond mae 60c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 201.4c/kg). Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod y galw wedi arafu rhywfaint ar ôl cyfnod y Nadolig, a gallai cryfder y Bunt yn erbyn yr Ewro fod yn effeithio ar niferoedd allforio. Roedd prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru ar gyfartaledd yn £81.90/pen – i fyny £1.90 ar yr wythnos flaenorol, a £4.10 yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain Fawr yn 601.1c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Ionawr (+132.3c ar y flwyddyn).

Cyfanswm trwybwn defaid yn lladd-dai'r DU oedd 1.3 miliwn pen ar gyfer mis Rhagfyr – i lawr 5.0% ar y flwyddyn. O fewn hyn, roedd trwybwn ŵyn wedi gostwng 5.5% ar y flwyddyn, sef 1.1 miliwn pen. Er gwaethaf y gostyngiad mewn trwybwn, roedd pwysau cyfartalog carcasau wedi cynyddu 0.3kg ar y flwyddyn i 19.8kg. Roedd niferoedd trwybwn mamogiaid difa a hyrddod yn gryf ar 113,500 pen – sy'n uchel o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol, ond nid yw mor uchel â'r cyfartaledd 5 mlynedd (2016-'20 = 133,300 pen). Gostyngodd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd yn ystod mis Rhagfyr o 3.8% ar y flwyddyn i 25,700 tunnell.

**Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**




**Cynnyrch porc yn y DU**

## MOCH

Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 08 Ionawr, gostyngodd Pris Mochyn Cyfan (APP) manyleb yr UE o 0.8c ar yr wythnos flaenorol i 146.0c/kg. O'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol y llynedd, mae'r cyfartaledd presennol 3.2c yn is, ac mae hefyd 6.7c yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer y cyfnod hwn (cyfartaledd 2017-21: 152.7c/kg). Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod proffidioldeb ym marchnad foch yr UE yn rhoi pwysau ar y sector, tra bod rhai ffermydd yn parhau i fod â nifer o foch sy'n barod i'r farchnad ar y fferm wrth i ladd-dai gyrraedd eu capasiti prosesu.

Cyfanswm y trwybwn moch yn lladd-dai'r DU oedd 974,600 pen ar gyfer mis Rhagfyr – cynnydd o 0.6% ar y flwyddyn. Roedd trwybwn moch glân yn debyg i lefelau blwyddyn yn gynharach ar 951,900 pen; fodd bynnag, roedd eu pwysau carcas cyfartalog yn llawer trymach na mis Rhagfyr 2020, sef 90.9kg (2.6kg yn drymach). Roedd hyn yn debygol o ganlyniad i gadw moch ar y fferm am fwy o amser na'r disgwyl yn dilyn heriau gyda chapasiti prosesu mewn rhai lladd-dai yn y DU. Roedd trwybwn hychod a baedd dros 34% yn uwch ar y flwyddyn, sef 22,700 pen, tra bod pwysau carcas yn debyg i lefelau blwyddyn yn gynharach – 0.5kg yn drymach ar gyfartaledd o 144.6kg. O ganlyniad i'r tueddiadau hyn, roedd cynhyrchiant porc wedi cynyddu 3.9% ar y flwyddyn, sef 89,800 tunnell yn ystod mis Rhagfyr.